
# Digidol 2030

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol yng Nghymru

2019



Jisc

# Contents


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **2** |
| **Cyflwyniad**<br>Cyflogaeth ddigidol, sgiliau digidol, a dyfodol dysgu | **4** |
| Y sector ôl-16 yng Nghymru | **7** |
| Yr angen am newid | **8** |
| Yr Ecosystem Ddigidol 2030 | **9** |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | **11** |
| Cyflwyno fframwaith Digidol 2030 | **13** |
| **Gweledigaeth ac Amcanion** | **16** |
| Rhanddeiliaid allweddol | **17** |
| **Amcanion** | **20** |
| 1. Arweinyddiaeth a rheolaeth | **21** |
| 2. Cyflwyno ac asesu'r cwricwlwm | **22** |
| 3. Ehangu cyfranogiad a chymorth dysgu | **23** |
| 4. Ymgysylltu â chyflogwyr a chymunedau | **25** |
| 5. Datblygu staff | **26** |
| 6. Systemau a seilwaith menter | **28** |
| **Gweithredu**<br>Y cyfnod cychwynnol: 2019-2021 | **29** |
| Monitro cynnydd ac asesu effaith | **31** |

# Rhagair y Gweinidog


Yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, ers dyfeisio'r we fyd-eang, mae ein byd wedi newid yn ddramatig; ac yn parhau i newid yn gyflym. Mae 'digidol' wedi dod yn gynyddol ganolog i'n bywydau bob dydd; i'r ffyrdd rydym yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu â'n gilydd; i'r math o waith a wnawn a sut rydym yn ei wneud. Mae'r **Adolygiad o Arloesi Digidol** a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad yr Athro Phil Brown, wedi bod yn cynnal asesiad eang o sut bydd datblygiadau mewn technoleg ddigidol yn effeithio ar ddyfodol gwaith a'r economi yng Nghymru.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn tynnu sylw at bwysigrwydd busnesau yn addasu i'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan dechnolegau newydd er mwyn tyfu economi Cymru a dilyn ein nod o sicrhau ffyniant i bawb. Ni allwn ragweld yn union sut bydd technoleg yn esblygu dros y degawd nesaf, ond gallwn roi'r hyder a'r gallu y bydd eu hangen ar ein dysgwyr ôl-16 (y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o'n gweithlu presennol neu ein gweithlu yn y dyfodol) i ddefnyddio offer digidol yn eu gwaith a'u bywydau bob dydd.

Yn y cyfamser, mae tirwedd addysg Cymru hefyd yn newid ar raddfa na welwn ond unwaith mewn cenhedlaeth. Mewn ysgolion, trwy **Cenhadaeth Ein Cenedl** rydym yn trawsnewid y cwricwlwm i roi'r sgiliau cywir i'n plant a'n pobl ifanc ar gyfer byd sy'n newid. Mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO), rydym yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth i sefydlu Comisiwn newydd sy'n gyfrifol am reoleiddio'r sector ôl-orfodol a sicrhau llwybrau dysgu academaidd a galwedigaethol cydlynol, o ansawdd uchel. Ni welwyd cyfnod gyda newidiadau ar gyflymder o'r fath o'r blaen,  na'r cyfleoedd yn fwy.

Trwy gydol y cyfnod hwn o drawsnewid, **Cenhadaeth Ein Cenedl** ar gyfer addysg yng Nghymru yw codi safonau a sicrhau bod dysgwyr o bob oed, gallu a chefndir yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu gwaith a gydol eu bywydau. Mae sgiliau digidol, a'r hyder i'w defnyddio'n briodol, eisoes wedi'u sefydlu fel rhan o'r gyfres o sgiliau hanfodol. Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (DCF) eisoes ar gael i ysgolion fel elfen gyntaf ein diwygiadau cwricwlwm, gan gefnogi'r pwyslais ar gymhwysedd digidol fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. Rydym yn rhagweld y bydd y sgiliau hyn yn cynyddu yn eu pwysigrwydd yn y dyfodol.

I lawer o bobl ifanc, mae sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a darparwyr dysgu oedolion yn cynnig cam pwysig wrth iddynt drosglwyddo o'r amgylchedd dysgu gorfodol i ddysgu mwy annibynnol; paratoi eu hunain ar gyfer y byd gwaith, neu ddilyn astudiaeth lefel uwch. Mae darpariaeth ôl-16 hefyd yn cynnig cyfleoedd i unigolion ymgysylltu (neu ail-ymgysylltu) â dysgu gydol eu bywydau; i ddilyn diddordebau newydd, i uwchsgilio a symud ymlaen ar hyd eu llwybr gyrfa presennol, neu i ailhyfforddi a newid cyfeiriad. Mae sgiliau digidol yn gynyddol bwysig i sicrhau y gall dysgwyr wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn, gan ddatblygu eu sgiliau ymholi beirniadol, cyfathrebu a thechnegol.



Er mwyn helpu i gefnogi'r sector AHO, rydym wedi datblygu Digidol 2030 fel fframwaith strategol i nodi ein gweledigaeth, ein nodau a'n hamcanion ar gyfer dysgu digidol ôl-16 yn ystod y degawd nesaf. Fe wnaethom ni ddewis y flwyddyn 2030 fel ein gorwel am ddau reswm: i gyd-fynd ag Adolygiad Hazelkorn 'Tuag at 2030' a osododd y cyfeiriad ar gyfer diwygiadau AHO; ac fel cyfnod o amser sy'n ddigon hir i weithio tuag at weledigaeth uchelgeisiol, ond sy'n ddigon agos i sicrhau ymdeimlad o gyflymder a brys.

Mae Digidol 2030 yn fenter a ddaeth o'r sector ôl-16, trwy ColegauCymru, ac mae'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid, arweinwyr a staff o bob rhan o'r sector. Diolchwn i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch brwdfrydedd. Bydd ymrwymiad a chefnogaeth barhaus gan uwch arweinwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dull Digidol 2030 yn cael ei fabwysiadu'n eang ym mhob rhan o bob sefydliad. Diolchwn hefyd i Jisc, a fu'n arwain y gwaith o ddrafftio'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion cychwynnol, a bydd yn parhau i fod yn bartner cyflawni strategol ar gyfer yr agenda bwysig hon.

Rydym wedi dechrau nodi nifer o flaenoriaethau a chamau gweithredu cenedlaethol yn y ddogfen hon, ond byddwn yn dibynnu ar ddeialog barhaus gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ein bod yn gosod ein blaenoriaethau'n gywir ac yn ymateb i ddatblygiadau a all ddigwydd yn ystod oes y fframwaith.

Gyda'n gilydd, rydym wedi dechrau diffinio ein dyheadau ar gyfer y sector yng Nghymru ac ar gyfer ein dysgwyr. Bydd angen i ni barhau i weithio gyda'n gilydd i gael y sylfeini cywir yn eu lle, er mwyn i ni allu archwilio'r holl gyfleoedd anhygoel sydd gan dechnoleg ddigidol i'w cynnig.

**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg

**Ken Skates AC**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

# Cyflwyniad

## Cyflogaeth ddigidol, sgiliau digidol, a dyfodol dysgu

**“Mae’n rhaid i Gymru fod yn barod at y dyfodol. Byddwn yn paratoi fel cenedl heddiw i fodloni gofynion sgiliau yfory, er mwyn gallu manteisio’n llawn ar ddatblygiadau technolegol. Mae Cymru’n genedl ddeinamig ac arloesol, sydd eisoes ar flaen y gad o ran technolegau newydd, ac wedi ymrwymo i aros yno” [1]**

Disgwylir i’r gweithle yn y dyfodol weld defnydd cynyddol o offer digidol a thechnolegau. Bydd dysgwyr heddiw (gweithwyr yfory) angen sgiliau a phrofiadau digidol o dechnoleg er mwyn defnyddio a datblygu’r rhain a thechnolegau eraill sydd eto i’w dyfeisio. Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn nodi bod “pobl yn debygol o weithio’n hirach drwy gydol eu hoes, a newid swyddi a diwydiannau sawl gwaith.” Bydd y gallu i addasu a hyblygrwydd yn nodweddion pwysig.

Bydd dal angen y galluoedd unigryw a’r setiau o sgiliau arbenigol sydd gan bobl mewn swyddi yn y dyfodol gan ychwanegu gwerth dynol at y peiriannau [2]. Mae’n bosibl bydd profiadau sy’n cynnig rhyngweithio personol a chyswllt wyneb-yn-wyneb yn cael eu gwerthfawrogi mwy a’u trysori mewn byd mwy awtomataidd.


Mae’r astudiaeth a ariannwyd gan NESTA yn 2017 “The future of skills: employment in 2030” [3] yn ystyried sut mae cyflogaeth yn debygol o newid, a’r goblygiadau ar gyfer gofynion sgiliau. Er na fydd rhai galwedigaethau’n gweld llawer o newid, disgwylir i eraill weld mwy o awtomeiddio a defnydd o ddysgu gan beiriant, a fydd yn newid natur swyddi i bobl.

Mae’r astudiaeth hefyd yn awgrymu “the future workforce will need broad based knowledge…” mewn meysydd fel iaith, hanes, athroniaeth, gweinyddu a rheoli “…in addition to the more specialised features that will be needed for specific occupations.”

Mae gan y newidiadau hyn oblygiadau pellgyrhaeddol i’r sector dysgu a sgiliau ôl-16. Mae Jisc yn awgrymu:

**“The technological changes in the workplace mean that education will have to change too, to take advantage of the possibilities of technology for education and to provide a workforce capable of exploiting rapidly evolving technologies.” and that “students expect an education experience that reflects the way they live, communicate and learn…” [4]**

[1]Cynllun Cyflogadwyedd (2018), Llywodraeth Cymru; https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/Cynllun-cyflogadwyedd.pdf
[2]Post mewn blog **The potential of Education 4.0 is huge – the UK must take the lead**, Paul Feldman, Jisc, 12 Medi 2018 https://www.jisc.ac.uk/blog/the-potential-of-education-4-is-huge-the-uk-must-take-the-lead-now-12-sep-2018
[3]https://www.nesta.org.uk/report/the-future-of-skills-employment-in-2030/
[4]**Member stories: moving towards Education 4.0**. Nodyn Blog gan Sarah Davies, Jisc, 15 Ionawr 2019. https://www.jisc.ac.uk/blog/member-stories-towards-higher-education-40-15-jan-2019




**"For me, the future is not about one specific device. We don't know what will be the current technology in another four [years]." [6]**

Athro, blogiwr addysg ac ymgynghorydd Rhwydwaith Athrawon y Guardian Matt Britland (yn ysgrifennu yn 2013)

**Mae ymchwil gan Jisc wedi nodi bod 64% o fyfyrwyr AB yn cytuno eu bod yn fwy annibynnol yn eu dysgu wrth ddefnyddio dulliau digidol. Roedd 57% arall yn cytuno bod dulliau digidol yn eu helpu i ffitio dysgu i mewn i'w bywyd.** [5]

Yn amlwg bydd gan offer a thechnolegau digidol rôl i'w chwarae, ac mae ganddynt lawer o fanteision, er oherwydd cyflymder newidiadau technolegol, mae'n anodd rhagweld pa dechnolegau fydd ar waith, a sut cânt eu defnyddio, ymhen deng mlynedd.

Gwnaed nifer o ymdrechion [7] i ragfynegi sut bydd offer a thechnolegau digidol yn cael eu defnyddio mewn amgylcheddau dysgu yn y dyfodol. Heb ganolbwyntio ar offer a thechnolegau penodol (a allai ddod yn hen ffasiwn, neu efallai nad ydynt yn bodoli eto), mae themâu cyffredin yn cynnwys:

- Mynediad ehangach at ddysgu a chyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu, fel nad yw dysgwyr yn cael eu cyfyngu gan eu lleoliad corfforol a'u bod yn cael mwy o hyblygrwydd i ddysgu mewn amser a lle sy'n gweddu i'w dewisiadau a phryd maen nhw ar gael o amgylch ymrwymiadau cartref a gwaith.
- Mwy o bersonoli, gan ganiatáu i ddysgwyr addasu offer a dyfeisiau digidol at eu defnydd eu hunain a dewis opsiynau sy'n addas ar gyfer eu harddulliau dysgu eu hunain a'u dewisiadau personol (a all gynnwys y defnydd o opsiynau ar gyfer gosodiadau cynwysedig, dewis deunyddiau dysgu mewn fformatau gwahanol, neu ddefnyddio offer hygyrchedd ychwanegol).
- Profiadau dysgu gyda mwy o drochi a rhyngweithio, gan gynnwys defnyddio sefyllfaoedd neu brofiadau rhithwir i baratoi dysgwyr ar gyfer sefyllfaoedd bywyd go iawn.
- Annog dysgu annibynnol a thracio cynnydd fel y gall dysgwyr gymryd mwy o berchnogaeth ar eu taith ddysgu, a medru cael gafael ar ddeunydd a fydd yn eu helpu i gyrraedd targedau craidd, a/neu ddeunydd a fydd yn eu hymestyn a'u herio.
- Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ychwanegol ochr yn ochr â chymwysterau ffurfiol, fel annog sgiliau cydweithio; a meithrin ymagwedd fwy cymdeithasol at ddysgu.
- Defnyddio offer a thechnolegau digidol i leihau'r baich gweinyddol ar staff addysgu a chefnogi dysgwyr, fel y gallant dreulio mwy o 'amser o ansawdd' gyda dysgwyr a darparu cymorth wedi'i dargedu'n fwy personol i wella lles dysgwyr a chanlyniadau dysgu.

Er ei bod yn bosibl y bydd yr amgylchedd dysgu'n newid, gyda'r offer, technolegau a phlatfformau a ddefnyddir i gefnogi addysgu a dysgu yn esblygu, bydd rôl gweithwyr addysgu a dysgu proffesiynol yn parhau i fod yn un canolog. Mae'n debyg mai dysgu cyfunol, gyda chymysgedd o ddysgu wedi'i alluogi'n ddigidol a phrofiad mwy "traddodiadol" wyneb yn wyneb â gweithiwr dysgu proffesiynol, yw'r ffordd ymlaen.

**Bydd technoleg ddigidol yn newid rolau gweithwyr dysgu professiynol, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu sgiliau newydd, a byddant hefyd (o'u defynyddio'n effeithiol) yn rhoi dulliau newydd ar waith ac yn gwella'r profiad**

[5]Canfyddiadau o Digital Experience Insights survey 2018 gan Jisc http://repository.jisc.ac.uk/6967/1/Digital_experience_insights_survey_2018.pdf
[6]Blog **What is the future of technology in education** gan Matt Britland, 19 Mehefin 2013 https://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2013/jun/19/technology-future-education-cloud-social-learning Fel ar 20 Rhagfyr 2018
[7]Gan gynnwys y nodyn yn blog Jisc **What does the FE college of the future look like?** gan Paul McKean, 20 Tachwedd 2018 https://www.jisc.ac.uk/blog/what-does-the-fe-college-of-the-future-look-like-20-nov-2018 a'r nodyn yn The Guardian Education blog What is the future of technology in education? gan Matt Britland, Mehefin 2013 https://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2013/jun/19/technology-future-education-cloud-social-learning Fel ar 20 Rhag 2018

# Y sector ôl-16 yng Nghymru

### Beth yw dysgu 'ôl-16' yng Nghymru?

Yn y ddogfen hon, rydym wedi defnyddio'r term 'dysgu ôl-16' i gwmpasu:

- Addysg bellach (AB)
- Dysgu seiliedig ar waith (DSW), gan gynnwys prentisiaethau a rhaglenni cyflogadwyedd
- Dysgu oedolion a dysgu cymunedol (DO)

| Addysg bellach | Dysgu seiliedig ar waith | Dysgu oedolion |
|---|---|---|
| Sefydliadau dielw annibynnol, y rhan fwyaf ohonynt yn cyflwyno cyrsiau academaidd a galwedigaethol yn amrywio o Lefel Mynediad i addysg uwch. | Darparwyr â chontractau i gyflwyno prentisiaethau a rhaglenni cyflogadwyedd. Mae'r sector yn cynnwys colegau, cwmnïau preifat, elusennau ac awdurdodau lleol. | Partneriaethau sydd fel arfer yn cynnwys awdurdodau lleol, colegau a sefydliadau eraill, sy'n cyflwyno rhaglenni dysgu oedolion rhan-amser sydd fel arfer yn y gymuned. |
| **98,510 o ddysgwyr unigryw yn 2017/18** | **63,120 o ddysgwyr unigryw yn 2017/18** | **9,660 o ddysgwyr unigryw ar raglenni dysgu Oedolion yn y Gymuned Awdurdodau Lleol yn 2017/18** [8] |

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan randdeiliaid sector allweddol (gan gynnwys ColegauCymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)) yn dangos bod dysgu ôl-16 yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at yr economi ac mae ganddo fanteision cymdeithasol eraill; yn ogystal â manteision i'r dysgwyr unigol.

[8] Ystadegau ar gyfer AY2017/18 wedi'u cymryd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-a-dysgu-cymunedol-2017-18.pdf

# Yr angen am newid

Daeth yr ysgogiad i ddatblygu Digidol 2030 o Grŵp Gweithredu Technoleg Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth y DU (FELTAG). Rhoddwyd y gorchwyl i'r grŵp o gyflwyno argymhellion ymarferol gyda'r nod o sicrhau defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol mewn dysgu, addysgu ac asesu mewn addysg bellach a sgiliau. Nododd adroddiad terfynol FELTAG [9], a gyhoeddwyd yn 2014, gyfleoedd sylweddol i ddefnyddio technoleg i wella mynediad at addysg, defnyddio dulliau cyflwyno hyblyg, cefnogi dysgwyr, a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd dysgu. Fodd bynnag, canfu hefyd:

**"There is increasing confidence and capability in the FE sector in using digital learning technology. What we lack is the means to share these ideas and developments across the sector… All the findings point towards the need for a new approach, one that balances an ambitious top-down vision with a radically more collaborative bottom-up responsibility for innovation."**

Wrth feddwl am ddull strategol penodol o ddysgu digidol ôl-16 yng Nghymru, rydym wedi ceisio cyflawni'r cydbwysedd hwn rhwng 'gweledigaeth o'r brig i lawr' a 'chyfrifoldeb o'r gwaelod i fyny'. Mae darparwyr dysgu wedi cymryd rhan ac wedi rhoi eu barn a'u mewnbwn trwy gydol y broses o ddatblygu'r fframwaith hwn.

Mae darparwyr dysgu wedi dweud wrthym, er bod amser wedi mynd heibio ers i FELTAG gwblhau ei waith, nid yw'r sefyllfa wedi newid ar lawer ystyr.


Mae llawer o enghreifftiau unigol o arfer rhagorol ac arloesol yn y sector, gan gynnwys darlithwyr a thiwtoriaid sy'n 'arloeswyr digidol', sy'n cofleidio defnyddio technoleg ddigidol i wella profiadau dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn gyson ar draws y system ôl-16, ac nid oes un weledigaeth gytûn ar gyfer sut dylid defnyddio technoleg ddigidol ym maes dysgu ôl-16.

Ers cyhoeddi'r adroddiad FELTAG, mae'r angen am weledigaeth gydlynol ar gyfer dysgu digidol ôl-16 wedi dod yn bwysicach.


Mae diagram Ecosystem Ddigidol 2030 (ar dudalen 9) yn dangos y cyd-destun strategol a pholisi y datblygwyd y fframwaith hwn ynddo. Darperir amlinelliad byr o rai polisïau allweddol yn ymwneud â Digidol 2030 yn fersiwn ryngweithiol y fframwaith hwn.

[9]http://feltag.org.uk/wp-content/uploads/2012/01/FELTAG-REPORT-FINAL.pdf

# Yr Ecosystem



# Ddigidol 2030



# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Gweithredir Digidol 2030 yn unol â phum egwyddor gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:**


- cymryd ymagwedd **hirdymor** tuag at gyflawni ein nodau, gan gydnabod bod dysgwyr a darparwyr dysgu yn mynd i'r afael â'r pwnc hwn o wahanol fannau cychwyn, a bydd ganddynt gryfderau, arbenigeddau a phrofiadau gwahanol
- sylweddoli bod defnydd effeithiol o offer digidol a thechnolegau yn cynnig cyfleoedd i gynyddu hygyrchedd a hyblygrwydd i bawb (nid yn unig i ddefnyddwyr ag anableddau cydnabyddedig), a gallant ddarparu data perthnasol i lywio ymdrechion darparwyr dysgu i **atal** dysgwyr rhag 'gadael' a chynnig cefnogaeth briodol
- **integreiddio** cynyddol gyda mewnbwn ar flaenoriaethau a chamau gweithredu cenedlaethol oddi wrth ddarparwyr dysgu, rhanddeiliaid allweddol a Llywodraeth Cymru
- annog **cydweithredu** yn y sector ôl-16 i rannu arfer da, profiad ac arbenigedd, a datblygu dulliau ac atebion cydweithredol
- hyrwyddo **cyfranogiad** staff a dysgwyr darparwyr dysgu o ran cynllunio, gweithredu, gwerthuso ac adolygu'r defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi gwelliant parhaus

**Mae Digidol 2030 yn cefnogi pob un o'r saith nod llesiant, a'r amcanion llesiant canlynol [10]:**

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell
- Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw
- Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid
- Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig



[10] Amcanion llesiant wedi'u cymryd o Ffyniant i bawb - y strategaeth genedlaethol: datganiad llesiant (Llywodraeth Cymru; 2017)



"[rydym am weld] dysgwyr a staff yn ddinasyddion digidol hyderus sy'n gallu rhyngweithio a chydweithio'n ddigidol wrth i dechnolegau newid a datblygu."

Sefydliad AB

# Cyflwyno fframwaith Digidol 2030

Datblygwyd y fframwaith strategol hwn ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Jisc, a'r sector ôl-16, gan ddechrau gyda seminar cychwynnol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a gynhaliwyd gan Golegau Cymru ym mis Mawrth 2017 (a oedd yn archwilio dichonoldeb datblygu strategaeth ddigidol ar gyfer addysg bellach yng Nghymru).

Mae mewnbwn gan staff darparwyr dysgu ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol feysydd gwaith o fewn sefydliadau unigol wedi bod yn bwysig wrth sefydlu'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion cyffredinol a rennir sy'n ffurfio craidd y fframwaith.

Mae'r fframwaith yn glir nad yw defnyddio technoleg ddigidol yn ddiben ynddo'i hun; mae angen defnyddio technoleg yn briodol i gefnogi gwerthoedd a blaenoriaethau presennol, ac i wella profiadau dysgu. Rydym yn ymwybodol y bydd darparwyr unigol sy'n cyflwyno rhaglenni addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn mynd at y fframwaith hwn o wahanol fannau cychwyn ac yng nghyd-destun anghenion dysgwyr gwahanol. Am y rhesymau hyn, mae Digidol 2030 wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg, heb fod yn rhagnodol, a gall darparwyr unigol ei addasu a'i ail-lunio.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o becyn o ddeunydd a ddatblygir fel rhan o fframwaith Digidol 2030. Ychwanegir at y pecyn hwn dros amser, yn unol â themâu a blaenoriaethau a nodir ar gyfer y blynyddoedd sy'n arwain at 2030.

**Mae'r pecyn cychwynnol yn cynnwys:**

- fideo rhagarweiniol a phoster
- fersiwn ar-lein rhyngweithiol o'r fframwaith, sydd hefyd yn cyfeirio gwybodaeth a chymorth ychwanegol sydd ar gael i ddarparwyr dysgu
- canllawiau gweithredu ar gyfer darparwyr dysgu ôl-16

**Bwriad y fframwaith yw:**

- Cyfleu gweledigaeth glir, gyffredin ar gyfer ein hymagwedd at ddysgu digidol yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, gan annog cydweithredu a rhannu arfer da;
- Nodi blaenoriaethau datblygu, disgwyliadau, a meysydd i'w datblygu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol y gellir mynd i'r afael â nhw ar lefel darparwr, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
- Helpu i flaenoriaethu buddsoddiad amser ac adnoddau yn y dyfodol, yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, yn strategol gan randdeiliaid allweddol ac ar gyfer darparwyr dysgu unigol; a
- Tynnu sylw at yr angen i gynyddu parhad profiadau dysgu a throsglwyddo o ddarpariaeth ddysgu orfodol i addysg ôl-orfodol.

**"…rydym yn credu mewn Arloesi Digidol a'r effaith gadarnhaol y gall defnydd da o dechnoleg ei chael ar unigolion ym mhob cefndir, ar gyflogwyr ac ar economi Cymru."**

Darparwr DSW

## Nodau

Bwriedir i'r wyth nod bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y bydd modd i'r sector ôl-16 yn ei gyfanrwydd weithio tuag ato erbyn 2030. Mae'r nodau hyn yn seiliedig ar farn gyfannol o'r cymorth digidol sydd ei angen ar gyfer taith y dysgwr; gan gynnwys elfennau o arweinyddiaeth, prosesau busnes, diogelwch, a seilwaith sydd angen bod yn eu lle er mwyn hwyluso darpariaeth ddigidol effeithiol.

## Amcanion a Chamau Gweithredu

Mae'r chwe amcan yn darparu dadansoddiad mwy manwl ac ymarferol o'r hyn sydd angen ei roi ar waith er mwyn cyrraedd y nodau. Mae'r amcanion wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r meysydd gweithredol neu swyddogaethol o fewn darparwyr dysgu, yn unol â chanlyniad gweithdai sector a hwyluswyd gan Jisc.

Er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hyn, bydd angen gweithredu ar lefel 'genedlaethol' (wedi'i gydlynu gan Lywodraeth Cymru a/neu gan randdeiliaid allweddol), gweithredoedd 'cydweithredol' gan ddarparwyr dysgu, a chamau gweithredu ar lefel 'sefydliadol' (wedi'u cydlynu gan ddarparwyr dysgu unigol).

Mae camau gweithredu cenedlaethol perthnasol ar gyfer 2019 i 2021, a'r ymagwedd arfaethedig yn y tymor canol i'r tymor hwy tuag at 2030, wedi'u nodi yn yr adran weithredu.





**“Mae’r weledigaeth yn uchelgeisiol ac yn pwyleisio pwysigrwydd sgiliau digidol i’r gweithlu ar hyn o bryd ac i’r dyfodol.”**

Sefydliad AB

# Gweledigaeth ac Amcanion

**Bydd darparwyr dysgu ôl-16 yn integreiddio technoleg ddigidol yn ddi-dor; ac yn annog arloesedd wrth ddefnyddio dulliau cynhwysol, hygyrch a dwyieithog i wella profiad y dysgwr. Yn seiliedig ar ymwybyddiaeth o'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gefnogi economi Cymru, bydd darparwyr yn rhoi'r galluoedd a'r hyder digidol i ddysgwyr a staff y bydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd bob dydd ac mewn gwaith.**

1. Safonau clir y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer sgiliau digidol yn eu lle i alluogi dysgwyr a staff i fodloni gofynion y diwydiant, y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gan adeiladu ar y cymwyseddau digidol a ddatblygwyd yn ystod addysg orfodol
2. Mae dysgu yn cael ei gyfoethogi trwy ddefnyddio technoleg, lle bynnag y mae'n briodol ac yn fuddiol i'r dysgwr
3. Cynyddir cydlyniad a hygyrchedd dysgu digidol drwy amrywiaeth o ddulliau cyflwyno'r cwricwlwm sy'n briodol i anghenion dysgwyr a chyflogwyr, ac sy'n cynnig cyfleoedd dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg
4. Mae profiad addysgu a dysgu diogel a sicr yn cael ei roi ar waith a'i reoli ar gyfer yr holl ddysgwyr a staff trwy ddarparu amgylcheddau rhithwir a ffisegol priodol
5. Mae'r holl staff, gan gynnwys uwch arweinwyr, yn deall manteision technoleg ddigidol, a rhwystrau posibl i'w cyflawni
6. Darperir cefnogaeth ar gyfer gwella'n barhaus profiad y dysgwr a phrosesau busnes trwy ddefnydd effeithiol ac arloesol o dechnoleg ddigidol
7. Mae diwylliant o gydweithio yn sicrhau bod gwybodaeth ac arfer gorau yn cael eu rhannu i ysgogi defnydd effeithiol o sgiliau digidol er mwyn cefnogi prosesau arweinyddiaeth, dysgu a busnes
8. Mae staff, adnoddau dysgu ac adnoddau busnes wedi'u halinio i alluogi cefnogaeth effeithlon i ofynion digidol addysg ôl-16 sy'n esblygu'n barhaus

**"Mae'r amcanion yn cipio pob elfen i gyflwyno strategaeth ddigidol effeithiol..."**

Darparwr DSW

**"Nodau strwythuredig sy'n glir ac yn rhoi cyfeiriad ar yr agenda ddigidol yng Nghymru."**

Sefydliad AB

**"Mae'r nodau'n darparu cyfeiriad clir i sefydliadau y gellir eu cyfleu i staff a dysgwyr fel ei gilydd."**

Darparwr DO

# Rhanddeiliaid allweddol

Mae'r siart isod yn nodi'r rhanddeiliaid allweddol a fydd yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r nodau a'r amcanion, ar lefel genedlaethol ac ar lefel darparwyr.

## Strategol


- Llywodraeth Cymru
- Jisc
- Cyrff sy'n cynrychioli'r sectorau (Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Prifysgolion Cymru)
- Asiantaethau asesu ansawdd allanol (Estyn, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch)
- Cymwysterau Cymru / cyrff dyfarnu
- Sefydliad Dysgu a Gwaith

## Partneriaid cenedlaethol eraill

- Cyflogwyr a'u cyrff cynrychiadol
- Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
- Darparwyr sy'n cynnig cymwysterau ad-dysgu a hyfforddi
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Comisiynydd y Gymraeg
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cyflenwyr meddalwedd

## O fewn darparwyr dysgu

- Timau uwch-arweinwyr a chyrff llywodraethu
- Arweinwyr cwricwlwm
- Cyfarwyddwyr adnoddau dynol
- Cyfarwyddwyr technoleg gwybodaeth
- Strwythurau sy'n cynrychioli dysgwyr
- Rheolwyr a thimau darparu ac asesu dysgu
- Rheolwyr rhaglenni dysgu
- Rheolwyr ansawdd
- Timau cymorth dysgu
- Timau ymgysylltu â chyflogwyr / unedau busnes sefydliadol
- Timau cymorth a gweinyddu busnes
- Timau cymorth technegol - technoleg gwybodaeth dysgu a thechnoleg gwybodaeth
- Swyddogion diogelu data
- Rheolwyr ystadau ac adnoddau





**“Mae’n bwysig bod gan sefydliadau weledigaeth glir ynghylch defnyddio technoleg ddigidol ynghyd â mecanwaith i roi’r weledigaeth honno a’r waith.”**

Sefydliad addysg bellach

# Amcanion

Rydym yn cydnabod bod llawer o ddarparwyr dysgu ôl-16 eisoes wedi croesawu dysgu digidol, ac mae cynlluniau strwythuredig a pholisïau ar waith gan rai ohonynt. Bydd angen i bob darparwr dysgu ystyried sut mae ei drefniadau presennol yn cyd-fynd â'r fframwaith hwn, a bydd angen iddynt nodi eu mannau cychwyn, eu hanghenion a'u blaenoriaethau unigol.

Bwriedir i'r amcanion hyn gael eu defnyddio gan ddarparwyr dysgu wrth lunio, cyflawni ac adolygu eu cynlluniau datblygu digidol eu hunain. Rydym yn annog pob darparwr dysgu i sicrhau bod amcanion a blaenoriaethau perthnasol yn cael eu cynnwys mewn gwaith cynllunio sefydliadol, mewn ffordd sy'n berthnasol, yn briodol ac yn ymarferol i'w sefydliad.

Mae'r amcanion wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r meysydd gweithredol neu swyddogaethol o fewn darparwyr dysgu, yn unol â gweithdai llunio amcanion Jisc. Dylai grwpio'r amcanion yn ôl meysydd gweithredol helpu darparwyr dysgu i bennu cyfrifoldeb ymarferol am amcanion penodol o fewn eu sefydliadau.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y darparwr dysgu yn ei gyfanrwydd yn cydgysylltu ei weithgareddau, yn galluogi cydweithredu rhwng staff sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd swyddogaethol yn y sefydliad ac yn sicrhau cyd-berchenogaeth o'r fframwaith hwn.

Mae rhagor o wybodaeth i gynorthwyo darparwyr dysgu unigol wrth fynd i'r afael â Digidol 2030, a'i roi ar waith, wedi'i chynnwys yn y canllaw rhyngweithiol a'r canllawiau gweithredu ar wahân sydd ar gael ar-lein.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

**1.1** Mae gan uwch-arweinwyr weledigaeth glir ac ymrwymiad i ddefnyddio technolegau digidol a sianeli digidol i wella dysgu a sgiliau.

**1.2** Mae cynwysoldeb, sgiliau digidol a'r defnydd o dechnoleg ac adnoddau digidol wedi'u cynnwys mewn polisïau sefydliadol craidd. Mae staff a dysgwyr yn deall polisïau, ac maent yn dangos llinellau atebolrwydd clir o ran cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, diogelwch, diogelu, hygyrchedd a diogelu data.

**1.3** Mae uwch-arweinwyr a rheolwyr yn meithrin diwylliant o gydweithredu (o fewn y sefydliad a chyda phartneriaid eraill), sy'n galluogi defnydd effeithiol o arbenigedd ac adnoddau i reoli a gwella'r defnydd o dechnoleg.

**1.4** Mae defnydd priodol o dechnolegau digidol yn helpu'r sefydliad i werthuso a gwella profiadau dysgwyr a phrosesau busnes cysylltiedig (megis derbyn dysgwyr, rheoli data ac adrodd).

**1.5** Mae staff, dysgwyr a phartneriaid wedi'u grymuso i dderbyn perchenogaeth o'u defnydd o dechnolegau digidol ac maent yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau digidol mewn diwylliant sefydliadol cadarnhaol a chefnogol.

**1.6** Mae prosesau, rhwydweithiau a sianeli priodol ar waith i hwyluso a chefnogi'r gwaith o rannu arferion da o ran technolegau digidol a sgiliau digidol.

# Cyflwyno ac asesu'r cwricwlwm

**2.1** Mae'r holl ddysgwyr yn cyrraedd lefel o sgiliau digidol sy'n briodol i'w rhaglen ddysgu a'u nodau unigol.

**2.2** Defnyddir dull diagnostig i asesu sgiliau digidol dysgwyr ac fel llinell sylfaen i fesur eu cynnydd a'u deilliannau.

**2.3** Defnyddir technolegau digidol priodol i wella dulliau darparu dysgu, cefnogi asesiadau a helpu staff i ymateb i ddewisiadau, agweddau a galluoedd unigol dysgwyr.

**2.4** Defnyddir offer, technolegau a systemau cynhwysol yn briodol i gefnogi, ymestyn a herio dysgwyr, ac ymgysylltu â nhw.

**2.5** Mae staff wedi'u grymuso i archwilio dulliau arbrofol ac arloesol o ran dysgu digidol, i werthuso a myfyrio ynghylch y deilliannau ac i rannu arferion da a'r gwersi a ddysgwyd.

**2.6** Mae darparwyr yn galluogi addysgu, dysgu, asesu a chymorth effeithiol, hygyrch a chynhwysol drwy gydgysylltu mannau dysgu rhithwir a ffisegol.

# Ehangu cyfranogiad a chymorth dysgu

**3.1** Gall dysgwyr o bob cefndir a gallu gyflawni hyd eithaf eu potensial drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i gynyddu hyblygrwydd a chefnogi dysgu annibynnol.

**3.2** Defnyddir technegau dysgu digidol, adnoddau a dulliau diagnostig mewn ffordd greadigol i helpu i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad a llwyddiant dysgwyr.

**3.3** Mae platfformau dysgu, offer ac adnoddau newydd posibl yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio, gan roi ystyriaeth i anghenion dwyieithog.

**3.4** Mae gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau arbenigol, yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynhwysiant digidol, hygyrchedd a llesiant dysgwyr.

**3.5** Mae arweiniad a chymorth ar gael i helpu staff i ddeall eu cyfrifoldebau o ran defnyddio technoleg i ehangu mynediad a chefnogi dysgwyr, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch ar-lein a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau hygyrchedd.

**3.6** Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu nodau drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am eu priodoleddau, eu presenoldeb, eu cynnydd a'u deilliannau.



# Ymgysylltu â chyflogwyr a chymunedau

**4.1** Mae darparwyr dysgu yn cynnal eu hymwybyddiaeth ynghylch arferion perthnasol y diwydiant ac ynghylch y gofynion presennol o ran sgiliau digidol a'r rheiny sy'n dod i'r amlwg, drwy ymgynghori a drwy bartneriaethau â chyflogwyr a chymunedau.

**4.2** Mae darpariaeth ddysgu sydd wedi'i galluogi'n ddigidol wedi'i chynllunio i adlewyrchu arferion y diwydiant ac ymwybyddiaeth ynghylch y gofynion presennol o ran sgiliau digidol yn y gweithle a'r rheiny sy'n dod i'r amlwg.

**4.3** Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol wrth werthuso effeithiolrwydd dysgu digidol ac wrth gynllunio a gweithredu gwelliannau.

**4.4** Mae dysgwyr yn deall y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg, gan gynnwys diogelwch ar-lein, defnydd cyfrifol o'r cyfryngau cymdeithasol a rheoli enw da ar-lein.

**4.5** Mae darparwyr dysgu yn ystyried cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr ddefnyddio, gwella a magu hyder wrth ddefnyddio sgiliau Cymraeg wrth gynllunio a gweithredu technolegau digidol newydd.

# Datblygu staff


**5.1** Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau unigol o ran dysgu digidol, llesiant a diogelwch ar-lein.

**5.2** Mae mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol yn datblygu hyder staff wrth ddefnyddio technegau cyflawni digidol, ynghyd â'u gallu i nodi technolegau, offer a dyfeisiau addas i gefnogi eu gwaith.

**5.3** Mae staff addysgu yn gallu sicrhau bod eu defnydd o dechnolegau dysgu yn ychwanegu gwerth at brofiadau dysgwyr drwy ymarfer myfyriol.

**5.4** Mae staff yn gwella ac yn diweddaru eu cymhwysedd digidol drwy gymryd rhan weithredol mewn cymunedau maes, digwyddiadau a rhwydweithiau yn eu sefydliad eu hunain a thu hwnt.

**5.5** Mae arloeswyr neu 'hyrwyddwyr' digidol yn cefnogi'r gwaith o ledaenu'r arferion gorau drwy hyfforddi a mentora cydweithwyr.



# Systemau a seilwaith menter

**6.1** Mae profiadau dysgwyr yn cael eu cyfoethogi drwy blatfformau, offer a gwasanaethau digidol difyr a hygyrch o safon uchel.

**6.2** Mae profiad digidol diogel a chadarn yn cael ei ddarparu i'r holl ddysgwyr a staff, gan gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a'r safonau perthnasol (gan gynnwys hygyrchedd).

**6.3** Mae gweithgareddau gweinyddu ac adrodd yn cael eu cefnogi'n effeithiol gan dechnoleg ddigidol fel bod staff addysgu yn gallu canolbwyntio ar anghenion dysgwyr.

**6.4** Anogir cydweithredu â sefydliadau eraill ynghylch technolegau digidol er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, osgoi dyblygu, creu arbedion effeithlonrwydd a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.

**6.5** Gwneir buddsoddiadau ariannol o ran cyflwyno a diweddaru technolegau digidol fel rhan o ddull strategol a chynlluniedig o wella cymorth i ddysgwyr, sgiliau a chyflogadwyedd.

**6.6** Mae penderfyniadau ynghylch systemau ac offer digidol newydd yn cael eu llywio gan weithgareddau ymgynghori â staff, dysgwyr a defnyddwyr eraill, a'u gwerthuso ar ôl eu gweithredu i sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu.

# Gweithredu

Bydd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar weithredu Digidol 2030 wrth gwrs, gan gynnwys y cyllid sydd ar gael; newidiadau mewn cymwysterau a chwricwlwm; a'r diwygiadau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) arfaethedig.

Mae nifer o flaenoriaethau eisoes wedi'u nodi yn dilyn adborth darparwyr dysgu ar y fframwaith. O ystyried pa mor gyflym mae technoleg yn newid, mae'n bwysig sicrhau bod modd i'n cynllun gweithredu cenedlaethol fod yn ymatebol, gan ymateb i newidiadau a blaenoriaethau newydd a fydd o bosibl yn cael eu pennu yn ystod  oes deng mlynedd y fframwaith hwn.

Nodwyd camau gweithredu cenedlaethol i'w cyflawni yn ystod 2019-2021 isod. Bydd canlyniadau'r camau cychwynnol hyn, a gweithgaredd casglu tystiolaeth yn ystod y cyfnod hwn, yn llywio cynllunio yn y dyfodol.

### Y cyfnod cychwynnol: 2019-2021

Gofynnir i sefydliadau AB, darparwyr DSW a darparwyr DO:

- Sicrhau bod ymrwymiad clir gan uwch arweinwyr i ddefnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol, yn ddiogel ac yn gynhwysol i gefnogi addysgu a dysgu yn Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog;
- Cyfleu gweledigaeth Digidol 2030 i unigolion perthnasol o fewn sefydliad y darparwr dysgu (gan gynnwys staff, rheolwyr, llywodraethwyr a dysgwyr);
- Sefydlu cyfrifoldebau clir o fewn y darparwr ar gyfer gweithredu a threfniadau monitro, adrodd a gwerthuso mewnol rheolaidd;
- Adolygu unrhyw strategaethau neu bolisïau presennol i adlewyrchu gweledigaeth, nodau ac amcanion Digidol 2030; neu (os nad oes gan ddarparwyr dysgu strategaethau sy'n bodoli eisoes) ystyried defnyddio'r fframwaith hwn fel sail ar gyfer datblygu strategaethau dysgu digidol newydd;
- Sicrhau bod pob sefydliad yn nodi ei fan cychwyn ei hun mewn perthynas â'r fframwaith, ac yn cytuno ar ei flaenoriaethau mewnol ei hun.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu eisoes wedi dechrau'r prosesau hyn, ac mae llawer eisoes wedi cymryd camau breision ymlaen. Nid ydym yn bwriadu sefydlu trefniadau rheolaidd ar gyfer monitro cynnwys Digidol 2030 yn nogfennau'r darparwyr eu hunain, ond efallai y byddwn yn gofyn am weld dogfennau perthnasol (neu sampl o ddogfennaeth gan ddarparwyr dethol) fel rhan o weithgareddau monitro ac adrodd ar bwyntiau allweddol.

Cynhelir y camau cenedlaethol canlynol yn ystod y cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd.

## Gweithredu cenedlaethol:

### Cyfathrebu am Ddigidol 2030

- Darperir canllawiau gweithredu fel rhan o'r fframwaith Digidol 2030.
- Bydd y fideo rhagarweiniol ar gael i'w ddefnyddio gan randdeiliaid ac at ddefnydd mewnol trwy arweinwyr Digidol 2030 enwebedig o fewn sefydliadau darparwyr dysgu.
- Bydd rhwydwaith rhithwir ar gyfer arweinwyr Digidol 2030 yn cael ei greu ar blatfform Hwb (gweler tudalen 30).
- Gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gyfathrebu â chyflogwyr ynghylch Digidol 2030 a chynorthwyo darparwyr i gynyddu eu hymwybyddiaeth o ofynion sgiliau cyfredol gan gyflogwyr a rhai sy'n dod i'r amlwg.

## Hwb
hwb.llyw.cymru

Mae Hwb yn blatfform dwyieithog a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnal casgliad cenedlaethol o offer ac adnoddau i gefnogi addysg yng Nghymru. Gellir cyrchu nifer o adnoddau cyhoeddedig ar Hwb heb gyfrif, ond mae defnyddwyr cofrestredig yn cael mynediad at offer a chynnwys ychwanegol. Gellir defnyddio Hwb ar unrhyw adeg, ac o amrywiaeth o ddyfeisiau y gellir eu gweithredu ar y we.

Rydym yn datblygu adran newydd o Hwb sy'n unswydd ar gyfer y sector ôl-16, gyda phynciau, adnoddau a chymunedau ymarfer sy'n uniongyrchol berthnasol i'r sector.

## Gweithredu cenedlaethol:
### Annog cydweithio, rhwydweithio a rhannu arferion da

Mae Llywodraeth Cymru yn ymestyn mynediad i blatfform Hwb ar gyfer staff darparwyr dysgu ôl-16. Dechreuodd rhaglen gyflwyno fesul cam ym mis Ebrill 2019. Mae platfform Hwb yn cynnig nodweddion i gefnogi rhwydweithio proffesiynol a chymunedau ymarfer rhithwir; a rhannu arfer da ac adnoddau. Rydym am iddo gael ei ddefnyddio gan ddarparwyr dysgu i rannu gwybodaeth a syniadau, o gwmpas Digidol 2030 ac ystod eang o bynciau eraill.

## Gweithredu cenedlaethol:
### Adnoddau dysgu digidol

Bydd staff darparwyr dysgu ôl-16 yn gallu cael gafael ar adnoddau dysgu digidol ar blatfform Hwb o ganlyniad i'r rhaglen gyflwyno hon. Bydd gweithgareddau a gynlluniwyd i rannu arfer da o ran creu adnoddau dysgu digidol, ac i dynnu sylw at ystyriaethau perthnasol (fel hygyrchedd, dylunio adnoddau ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu ac ati) yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

## Gweithredu cenedlaethol:
### Safonau

Yn ystod yr ymgynghoriad ar Digidol 2030, dywedodd darparwyr dysgu wrthym fod Nod 1 yn her sylweddol, a bod angen safonau digidol clir, cyfoes ar gyfer staff a dysgwyr. Mae hwn yn faes blaenoriaeth y byddwn yn ei ystyried, gyda'r grŵp llywio a Jisc, yn ystod 2019-20, gyda'r bwriad o sefydlu ffrwd waith i ddatblygu safonau digidol.

## Gweithredu cenedlaethol:
### Dysgu proffesiynol a sgiliau staff

Rydym yn cynnal astudiaeth gwmpasu i lywio datblygiad strategaeth dysgu proffesiynol ôl-16, gan gynnwys cymwysterau cychwynnol ymarferwyr a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae sgiliau digidol yn un o'r themâu allweddol sy'n cael eu harchwilio yn yr astudiaeth hon, a fydd yn adrodd yn ystod 2019. Rydym yn rhagweld y bydd canlyniadau'r astudiaeth yn cynnwys argymhellion ar ddiwygio'r cymwysterau TAR (Addysg Bellach) a chymwysterau ymarferwyr eraill, ac y bydd hyn yn cynnwys ffocws penodol ar sgiliau digidol ac addysgeg.

### Blaenoriaethu cyllid a chefnogaeth Llywodraeth Cymru: Jisc

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant blynyddol i Jisc, i gefnogi'r sector ôl-16 yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, bwriadwn y bydd cefnogaeth Jisc i'r sector ôl-16 yn cyd-fynd yn agosach â gweithredu'r fframwaith.

# Monitro cynnydd ac asesu effaith

Bydd Grŵp Llywio Digidol 2030 yn parhau i gynghori ar ddatblygiad y fframwaith hwn, ac i fonitro ei weithrediad. Bydd y Grŵp Llywio hefyd yn cefnogi cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu, a bydd yn helpu i alluogi rhyngweithiadau effeithiol rhwng rhanddeiliaid.

Darn cynnar o waith fydd nodi pa wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd y gellid ei defnyddio i fesur cynnydd tuag at nodau Digidol 2030, fel y gellir adnabod ac ymdrin ag unrhyw fylchau.

Byddwn yn gweithio gyda Jisc i nodi'r data allweddol hwn ac i sefydlu gwaelodlin y gellir mesur cynnydd yn y dyfodol yn ei erbyn.

Rydym yn rhagweld cynnal adolygiad canol tymor i werthuso'r cynnydd a wnaed tuag at nodau Digidol 2030, ac i ystyried adnewyddu cynnwys y fframwaith i sicrhau ei fod yn dal i adlewyrchu ein dyheadau ar gyfer dysgu digidol ôl-16.

Rydym yn croesawu adborth, cwestiynau ac awgrymiadau ar bob agwedd ar Ddigidol 2030. Anfonwch e-bost at post16quality@llyw.cymru.



